Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade and
Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Ionawr 2023

Annwyl Llywydd,

Ar 13 Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno. Cafodd ei gyfeirio, gydag 16 Ionawr 2023 fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Ysgrifennaf i fynegi pryderon sylweddol ein Pwyllgor ynghylch yr amserlenni mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Nid yw'n glir i ni pam mai dim ond ar 8 Rhagfyr 2022 y cafodd y Memorandwm, sy'n ymwneud â Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU ym mis Mai 2022, ei osod gerbron y Senedd, ac mai 16 Ionawr 2023 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Oherwydd yr amserlen, bu'n amhosibl cynnal unrhyw waith craffu ystyrlon ar oblygiadau deddfwriaethol y Bil i Gymru na'i oblygiadau o ran polisi. Fel y cyfryw, nid yw'r Pwyllgor yn gallu cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

Diolch am anfon copi ataf o'ch llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i weld ymateb y Gweinidog, a hoffai ofyn am gopi ohono unwaith y bydd yn dod i law.

Cofion cynnes,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.